RHIFYN
ISSUE
20
23.01.20

Llais Llantrisant

IONAWR IACHUS
HEALTHY JANUARY

Bu'r plant yn dathlu lansiad ymgyrch 'Ionawr Iachus' yr Urdd unwaith eto eleni ar 17.01.20. Cymeron ni ran yn yr ymgyrch trwy wylio fideo'r lansiad a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol ar ddechrau pob sesiwn yn ystod y dydd i sicrhau fod ymennydd pawb ar ddihun ac yn barod i weithio'n galed!

The children supported the launch of the Urdd's 'Healthy January' campaign once again this year on 17.01.20. We took part in the campaign by watching the Urdd's launch video and undertaking physical activities at the start of each session that day to make sure all our brains were awake and ready for the hard work of the day!



Rhagor o luniau / *More Pictures*

GYMNASTEG
GYMNASTICS

Da iawn wir i'r plant aeth i Ysgol Llanhari ar 23.01.20 i gymryd rhan mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Yr Urdd. Daeth RP o'na gyda medal arian! Diolch i'n rheini am helpu mas ar y dydd.

Well done to the children who went to Ysgol Llanhari on 23.01.20 to take part in an Urdd organised competition. RP came away with a silver medal! Thank you to our parents for helping out on the day.





DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

05.02.20 - Eisteddfod Ysgol
School Eisteddfod
14.02.20 - Plant yn gorffen ar gyfer Hanner Tymor
Children break up for Half Term
06.03.20 - Yr Eisteddfod Gylch - Ysgol Llanhari
Regional Eisteddfod - Ysgol Llanhari
27.03.20 - Yr Eisteddfod Sir - Pafiliwn Porthcawl
County Eisteddfod - Porthcawl Pavilion
03.04.20 - Plant yn gorffen ar gyfer y Pasg
Children break up for Easter
21.04.20 - Dechrau Tymor yr Haf
Start of Summer Term

PÊL-RWYD YR URDD
THE URDD NETBALL



Ar 14.01.20, aeth tîm o ferched i Ganolfan Hamdden Llantrisant gyda Mrs Jenkins i gymryd rhan mewn twrnamaint pêl-rwyd a drefnwyd gan Yr Urdd. Unwaith eto, chwaraeodd y merched yn arbennig o dda a daeth y tîm yn ail - enillon nhw 2 gêm allan o 3 yn erbyn tair ysgol arall. Llongyfarchiadau iddynt a diolch i Mrs Wheeler a Mrs Lawton am eu cymorth!

On 14.01.20, a team of Year 6 girls went along to Llantrisant Leisure Centre with Mrs Jenkins to take part in a netball very well indeed and the team came second - the girls won 2 games out of three playing against 3 other schools. Many congratulations to them and thanks to Mrs Wheeler and Mrs Lawton for their help!



LLONGYFARCHIADAU
CONGRATULATIONS

Daeth Dr Price a Rachel o Feddygfa'r Hen Ysgol, Pontyclun atom ar 16.01.20 i wobrwyo tri disgybl CA2 wedi iddynt ennill cystadleuaeth gwaith celf cyn y Nadolig. Gallwch weld gwaith y merched wedi'i arddangos yn y feddygfa!

Dr Price and Rachel from Old School Surgery, Pontyclun visited us on 16.01.20 to present an award to three KS2 pupils on their successful entries to their art competition before the Christmas break. You can see the girls' work displayed in the surgery!



CEFNOGI CYMRU A FELINDRE
SUPPORT WALES AND VELNDRE

Croeso i'r plant wisgo dillad coch i'r ysgol ar 31.01.20 er mwyn cefnogi tîm rygbi Cymru yn eu gêm gyntaf ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad a hefyd Ysbyty Felindre. Mae'r elusen yma'n agos iawn at ein calonnau yn yr ysgol felly gwerthfawrogir pob un o'ch cyfraniadau hael!

The children are welcome to wear red clothing to school on 31.01.20 to support Wales in their first game of the Six Nations championship and also Velindre Hospital. This charity is very close to our hearts in school so we very much appreciate all your generous contributions!



Y GRhA
THE PTA

Erbyn hyn, mae gan bob dosbarth yn yr ysgol sgrîn ryngweithiol i'w defnyddio gan y disgyblion a'r staff. Mae'r disgyblion a staff yr ysgol yn hynod o ddiolchgar i'n holl rieni sydd wedi cefnogi'r llu o weithgareddau llynedd ac eleni sydd wedi galluogi i'r GRhA ariannu rhan fwyaf o gost y prosiect yma. Yn ogystal â'r deg sgrîn newydd yma, prynwyd 15 Chromebook newydd i'w defnyddio ym mhob dosbarth ar draws yr ysgol. Rydym mor ffodus i gael CRhA mor weithgar ac un sy'n codi symiau sylweddol o arian yn flynyddol.

By now, every class in school has a new interactive screen to be used by the pupils and the staff. We are all very grateful to our parents for their support in PTA events which has allowed the committee to be able to finance the majority of this project. In addition to the ten new screens, we also purchased 15 Chromebooks to be used in every class across the school. We are very lucky to have such a hard working PTA and one which raises such considerable funds annually.









ALERGEDDAU A BWYDYDD - I'CH ATGOFFA
ALLERGIES AND FOOD - A REMINDER

Mae nifer o blant yn yr ysgol ar hyn o bryd sydd ag alergeddau difrifol tuag at gnau, megis: cnau daear, menyn pysgnau, pecanau, cnau Ffrengig, olew cnau a chyflasynnau cnau. Gallai cyffwrdd neu fwyta rhai o'r eitemau hyn achosi adwaith difrifol. Er mwyn diogelwch y disgyblion hyn, gofynnir yn garedig unwaith eto i rieni osgoi anfon bwydydd sy'n cynnwys cnau i'r ysgol ar gyfer ciniawau pecyn a byrbrydau amser chwarae, os gwelwch yn dda. Mae hyn yn cynnwys bwydydd fel 'Nutella'.

Cofiwch, hefyd, i dorri grawnwin, llus, tomatos bach ac ati yn eu hanner ar eu hyd, os gwelwch yn dda, gan fod plant yn tagu'n hawdd ar y ffrwythau hyn. Diolch yn fawr ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

Currently, there are a number of children in school who have a severe, life-threatening allergy to nuts including: peanuts, peanut butter, pecans, walnuts, nut oils and nut flavourings etc. Touching or eating these items may provoke a severe allergic reaction. For the safety of these pupils, we once again kindly ask that parents do not send any food containing these items to school for a snack or in packed lunches. This also includes foodstuffs such as 'Nutella'.

Also, please remember to cut grapes, blueberries, small tomatoes etc. in half, lengthways as children can quite easily choke on these fruits. Thank you in advance for your cooperation.









YMWELIAD NSPCC CYMRU
NSPCC WALES' VISIT

Diolch yn fawr iawn i NSPCC Cymru am dreulio diwrnod cyfan gyda ni ar 21.01.20. Dysgon ni lawer am waith yr elusen a chafodd yr holl blant negeseuon pwysig yn ystod y gwasanaethau ar sut i gadw'n ddiogel. Byddwn yn cefnogi'r elusen ymhellach y tymor hwn trwy gymryd rhan mewn tasg noddedig i godi arian at yr achos da yma. Darllenwch y llythyr am y dasg noddedig yma.

Many thanks to NSPCC Wales for spending the day with us on 21.01.20. We learned a great deal about the work of the charity and all the pupils received important messages during the special assemblies about keeping safe. We shall be further supporting this charity during the term by taking part in a sponsored task to raise funds towards this worthy cause. Read the sponsored task letter here.





NSPCC
CYMRU | WALES



DYDD SANTES DWYNWEN HAPUS
HAPPY SANTES DWYNWEN DAY

Mae'r plant yn dysgu am hanes Santes Dwynwen yn yr ysgol bob blwyddyn ar Ionawr 25ain ond ydych chi'n gyfarwydd â hanes nawddsant cariadon Cymru? Cliciwch ar y llun gyferbyn i ddysgu rhagor!

The children learn about the history of Santes Dwynwen in school each year on January 25th but are you familiar with the history of Wales' patron saint of lovers? Click on the picture to the right to learn more!



TYWYDD GARW
INCLEMENT WEATHER

Nid ydym wedi archebu eira y tymor hwn ond pwy a ŵyr beth gawn ni! Gan obeithio na fydd angen eich ffonio chi ar hast i gau'r ysgol, byddai'n syniad i chi ddechrau meddwl pwy fyddai ar gael i gasglu'r plant mewn argyfwng os oes angen, os gwelwch yn dda.

We haven't ordered any snow this term but who knows what will land on us! Although we hope that we won't have to contact you suddenly to close the school, could we ask that you consider making arrangements for a family member or friend to be on standby in an emergency, please.

